**FIN(4) 02-13 Paper 2**
**Y PWYLLGOR CYLLID – YMCHWILIAD I'R BROSES O REOLI ASEDAU**

**Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth i gyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i'r broses o Reoli Asedau.

2. Deallir y bydd yr ymchwiliad 'yn mabwysiadu dull gweithredu ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, mewn dau brif faes:

* Y prosesau o ran rheoli ystad Llywodraeth Cymru ei hun; a
* Y canllawiau a'r gefnogaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru o ran rheoli asedau drwy'r sector cyhoeddus yn ehangach yng Nghymru, a'i gwaith yn hyrwyddo arferion da yn hyn o beth.'

**Y Cefndir**

3. Pennwyd y trywydd ar gyfer rhagoriaeth yn y broses o reoli asedau yn adroddiad Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC) yn 2006 - 'High Performing Property'. Roedd yr adroddiad yn nodi pedair elfen allweddol er mwyn sicrhau rhagoriaeth:

**Arwain ac Integreiddio**
**Meincnodi a Safonau**
**Sgiliau a Gallu**
**Adolygu a Herio**

4. Mae adroddiadau wedi hynny wedi tynnu sylw at themâu ac argymhellion tebyg o ran mabwysiadu arferion gorau ym maes Rheoli Asedau e.e.

i) Adroddiad Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon '*Property Asset Management In Central Government*' a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012.

ii) Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o'r enw '*Improving the Efficiency of Central Government Office Property*' a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012.

**Tystiolaeth**

**<u>Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru</u>**

**Rhaglen Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru (2010-15)**

5. Mae Rhaglen gyfredol y Strategaeth Leoli a gymeradwywyd gan y Cabinet yn pennu cynllun strategol a gweledigaeth glir ar gyfer Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru dros y tymor canolig. Mae hefyd yn cyd-fynd yn llwyr ag egwyddorion arferion gorau wrth Reoli Asedau a nodir yn yr adroddiadau y cyfeirir atynt uchod. Rhagwelir y bydd y Strategaeth Leoli yn sicrhau arbedion

cyfansymiol crynswth o tua £18 miliwn dros y cyfnod o 5 mlynedd ac arbediad cost rheolaidd blynyddol o tua £5.3 miliwn (wedi'i seilio ar waelodlin 2010) o 2015 ymlaen, sy'n cyfateb i ostyngiad o tua 30% yng nghostau meddiannaeth blynyddol cyffredinol yr ystad.

6. Rheolir yr ystad weinyddol yn unol â'r amcanion a'r targedau a nodir yn Rhaglen y Strategaeth Leoli. Prif nod y strategaeth yw sicrhau seilwaith eiddo o safon uchel, sy'n cydymffurfio â'r gofynion, yn gynaliadwy ac yn y lle priodol i gynorthwyo busnes Llywodraeth Cymru, a hynny am gost y gall y sefydliad ei fforddio. Mae'r Strategaeth Leoli yn galluogi Llywodraeth Cymru i rannu llai o weithwyr rhwng llai o lefydd gan sicrhau'r arbedion a fydd yn angenrheidiol am y bydd y cyllidebau'n llai. Llwyddwyd i symud ymlaen yn sylweddol at y nod o sicrhau ystad fwy darbodus, effeithlon a chynaliadwy.

7. Dros ddwy flynedd lawn gyntaf y Strategaeth Leoli (2010-15), gwelwyd gostyngiad yn nifer yr eiddo[1] yn yr Ystad o 75 (65 swyddfa) i 52 (44 swyddfa) gydag arbedion cronnol o £4,898,704 yn y costau rhedeg. Ar ddiwedd cyfnod y strategaeth, ar sail yr amcanestyniadau a'r polisïau cyfredol, bydd 21 eiddo yn yr ystad weinyddol (13 swyddfa).

8. Yn ystod cyfnod y strategaeth, mae'r Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol (APSG) yn cynnig dull pwysig o lunio ac adolygu yn wyneb anghenion busnes sy'n dod i'r amlwg yn Llywodraeth Cymru. Mae i'r Grŵp ddwy swyddogaeth: cynnig cyngor a gweithredu fel system glirio ar gyfer yr holl gynigion newydd ym maes eiddo. Mae'r broses o sianelu dymuniadau am eiddo trwy'r Grŵp Strategaeth Eiddo Gweinyddol yn sicrhau cysondeb, cyfatebiaeth polisïau a'r gwerth gorau. Mae'r Grŵp yn cyfarfod unwaith y mis i ystyried materion eiddo strategol a'r holl gynlluniau newydd ar gyfer eiddo. Caiff y Grŵp ei gadeirio gan Bennaeth yr Is-adran Eiddo ac mae'n cynnwys uwch swyddogion o bob adran. Mae'r Grŵp yn adolygu ei berfformiad ac yn paratoi adroddiad ffurfiol arno bob blwyddyn.

9. Yn ystod 2011/12, cyflwynwyd cyfanswm o 12 papur i'r Grŵp gan wahanol Adrannau i gael eu hystyried yn ffurfiol.

**Adroddiad Llywodraeth Cymru: 'Cyflwr yr Ystad'**

10. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cyfeirio at berfformiad ein hystad weinyddol yn erbyn meincnodau allweddol. Er mwyn rheoli'n effeithiol, rydym yn mesur perfformiad fel y gellir sicrhau gwelliant parhaus.

11. Mae'r ffaith bod adroddiad Cyflwr yr Ystad yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn yn enghraifft o dryloywder Llywodraeth Cymru yn paratoi data perfformiad ac mae'n sylfaen ar gyfer hybu gwelliannau. Mae ein hadroddiad bob amser yn cael croeso cynnes. Mae Llywodraethau'r Alban a Gogledd

[1] *Mae 'eiddo' yn cyfeirio at swyddfeydd (yn cynnwys swyddfeydd yn Llundain a Brwsel) a chyfleusterau storio/cyfleusterau arbenigol.*

Iwerddon wedi defnyddio dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn batrwm ar gyfer eu hadroddiadau nhw ac maent yn dal i wneud hynny.

12. Roedd adroddiad 2011/12 (sef y pedwerydd adroddiad blynyddol[2]) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012, yn cynnwys yr enillion effeithlonrwydd cadarnhaol isod ers y flwyddyn flaenorol:-

- Gostyngiad o 5.58% ym maint ystad Llywodraeth Cymru i gyd;
- Gostyngiad yn nifer lleoliadau swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru, o 49 i 41[3];
- Gostyngiad o £973,869 (5.3%) yng nghost flynyddol gyffredinol meddiannaeth ers y flwyddyn flaenorol;
- Defnyddio lle 2.7% yn fwy effeithlon dros yr ystad gyfan; a
- Rhagori ar y targedau ar gyfer lleihau carbon, gan sicrhau gostyngiad o 15% mewn allyriadau $CO_2$.

13. Trwy reoli'r ystad weinyddol yn effeithiol dros nifer o flynyddoedd a rheoli asedau yn unol â'r arferion gorau, gwelwyd y manteision a ganlyn:

- Cyfleusterau sy'n diwallu anghenion busnesau;
- Gostyngiad mewn costau rhedeg fel y gwelir trwy feincnodi a pharatoi data perfformiad;
- Ystad sy'n llai o faint, yn fwy effeithlon ac yn addas at y diben;
- Cyfraniad sylweddol at gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau carbon;
- Gwell defnydd o'r eiddo trwy ddefnyddio arferion gweithio modern a hyblyg;
- Gwelliant yng nghyflwr yr eiddo trwy fuddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu; a
- Gwerth am arian i'r trethdalwr.

**Cyngor i Adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru**

14. Mae'r Is-adran Eiddo – Ystadau (PPCS) yn cynnig cyngor a chymorth proffesiynol ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, ar bob mater sy'n ymwneud ag asedau tir ac eiddo. Cynigir peth o'r cyngor i'r Adrannau trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth ffurfiol. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y perfformiad yn bodloni gofynion adrannau'r cleientiaid e.e.

- Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS)) yn cynnig gwasanaeth sicrhad annibynnol ar brosiectau cyfalaf gan roi sicrhad ar 'werth am arian' a

---

[2] http://wales.gov.uk/about/civilservice/facts/ourbuildings/estate20112012/?lang=cy

[3] *Dadansoddiad o berfformiad swyddfeydd yng Nghymru yn unig a geir yn Cyflwr yr Ystad*

chyngor ar gydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd i gyrff mewnol ac allanol.

Mae'r Is-adran Eiddo'n cael llawer o geisiadau ad-hoc am gyngor a chymorth hefyd e.e.

- Yr Is-Adran Gynlllunio – Yn 2012, helpodd i ddileu'r posibilrwydd y byddai angen talu £4 miliwn yn dilyn hawliad am iawndal.

**Lleihau Carbon**

15. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gostyngiad o 30% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020 (o'i gymharu â 2011) ac i sicrhau gostyngiad o 3% y flwyddyn o leiaf ar gyfer ei adeiladau a'i seilwaith sefydlog. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n cymryd rhan yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad y DU i Leihau Carbon (CRC). Mae hyn yn gofyn am ddull gweithredu corfforaethol gan gasglu data am y defnydd o ynni yn holl weithgareddau Llywodraeth Cymru a pharatoi adroddiadau arno. Mae pob adran berthnasol wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'w helfen hi ac yn ei roi ar waith. Yn y tabl cynghrair blynyddol cyntaf ar berfformiad yr Ymrwymiad Lleihau Carbon (ar gyfer 2011-12), llwyddwyd i ddod yn 320fed parchus allan o'r 2,091 oedd yn cymryd rhan. Disgwylir adroddiad ar ffigurau'r ail flwyddyn ym mis Chwefror 2013. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y llwyddir i gyrraedd safle uwch yn y tabl.

16. O ystad weinyddol Llywodraeth Cymru y daw'r rhan fwyaf o'i hallyriadau carbon uniongyrchol. Mae strategaeth a chynllun gweithredu pwrpasol ar gyfer Rheoli Carbon yn yr ystad weinyddol yn lasbrint ar gyfer gostwng allyriadau carbon yn unol â'r targedau. Rhagorwyd ar y targedau yn y flwyddyn ddiwethaf, gan sicrhau gostyngiad sylweddol o 15% yn yr allyriadau. Daw'r arbedion hyn o ganlyniad i roi'r cynllun gweithredu ar waith a rhesymoli'r ystad (mae'r rhesymoli hyn yn gyfrifol am ryw draean o'r cyfanswm). Mae ein cynlluniau ni a'r buddsoddiad cysylltiedig yn hollol gydnaws â'r Strategaeth Leoli a'r cynllun rheoli asedau ehangach a byddant yn dal yn sylfaen ar gyfer arbedion yn y dyfodol.

**Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol**

17. Mae Strategaeth Leoli ystad weinyddol Llywodraeth Cymru, fel y nodir uchod, yn hollol gydnaws â Chanllawiau Arferion Gorau RICS ac Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Briffio Cenedlaethol Rheoli Adeiladau' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010. Byddai'r Strategaeth Leoli, fel y datblygid hi, yn rhan hanfodol o unrhyw Gynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a ddiweddarid gan Lywodraeth Cymru.

**<u>Rôl Allanol</u>**

18. O dan Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus (PSLG), mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol (NAWG) yn dal i symud ymlaen â rhaglen waith sy'n anelu at gyflawni'r agenda ar gyfer rheoli asedau ar y cyd. Y bwriad yw gwneud hyn trwy bennu, cynnal ac annog dulliau arloesol o reoli'r ystad

gyhoeddus a'i hasedau cyfatebol gan sicrhau cyfleoedd i wella'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol.

19. Mae cydweithio yn hanfodol ar draws ystad ehangach y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn cyrraedd targedau ariannol a dyheadau o ran cyflenwi gwasanaethau. Ceir tair prif elfen i'r ymdrech i sicrhau cydweithio ym maes asedau'r sector cyhoeddus:

- Cydweithio o ran cyflenwi gwasanaethau;
- Cydweithio o ran rheoli asedau; a
- Cydweithio o ran datblygu polisïau.

20. Mae eiddo'r sector cyhoeddus yn chwarae rhan hanfodol o ran cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a gellir ei ddefnyddio i hybu'r gwaith o resymoli gwasanaethau. Byddai modd i sefydliadau yn y sector cyhoeddus gydweithio i wella gwaith cynllunio a gweithredu eu heiddo ac i roi hwb i waith cyflenwi gwasanaethau ledled Cymru gan sicrhau rhagor o fanteision a defnyddio llai o adnoddau.

21. Nod y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yw datblygu strwythur i helpu i sicrhau bod yr ystad gyhoeddus, yn cynnwys tir, yn cael ei defnyddio mor effeithlon ag y bo modd er mwyn hybu'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau a sicrhau gwerth am arian ar draws amrediad eang o asedau. Amcan y Gweithgor yw cydweithio â chyrff yn y sector cyhoeddus i ddylanwadu a pherswadio er mwyn hybu newid yn y ffordd y mae asedau cyhoeddus yn cael eu caffael, eu gweithredu a'u rhannu a'u gwaredu.

22. Dyma rai pethau y mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wedi'u cyflawni hyd yma:

**i) Sefydlu Cronfa Ddata o Eiddo'r Sector Cyhoeddus trwy Gymru Gyfan**

Mae ein gwaith rheoli strategol ar yr ystad gyhoeddus yn dal yn gysylltiedig â'r gwaith o fynd ati, gam wrth gam, i greu Cofrestr o Asedau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru Gyfan, trwy ddefnyddio gwasanaeth ePIMS[4] sef gwasanaeth electronig i fapio gwybodaeth am eiddo. Datblygwyd y gronfa ddata (ePIMS Lite) gan y Gweithgor Asedau Cenedlaethol mewn cydweithrediad â Swyddfa'r Cabinet. Y dasg oedd sicrhau bod modd i bob corff cyhoeddus yng Nghymru gofnodi a gweld gwybodaeth lefel uchel am eiddo. Mae'n dechrau cyflawni ei photensial fel yr offeryn mwyaf tryloyw a hygyrch a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gydgysylltu ystadau.

Mae'r gronfa ddata yn galluogi ac yn hwyluso'r ffordd i ddefnyddwyr:

---

[4] *e-PIMS yw cronfa ddata ganolog eiddo a thir Ystad Sifil Ganolog y Llywodraeth. Mae e-PIMS yn cofnodi union leoliad eiddo, ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig fel manylion deiliadaeth, maint a'r defnydd a wneir ohono.*

- Weld cyfleoedd ar gyfer arbedion a chyd-ddatblygu, cyd-leoli, rhannu asedau a rhesymoli asedau mewn ffordd strategol
- Archwilio'r data i ganfod asedau allweddol, pobl i gysylltu â nhw a phartneriaid posibl.

Yn y pen draw, bydd y pethau uchod i gyd yn arbed arian, yn gwneud gwell defnydd o adnoddau ac yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Hyd yma, mae 14,815 o eitemau o'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru wedi'u casglu (15,663 yn cynnwys Llywodraeth Ganolog).

Mae'r dull hwn yn cael ei hyrwyddo a'i roi ar waith fesul tipyn ymhlith sefydliadau'r Trydydd Sector yng Nghymru erbyn hyn. Yn ogystal, mae ePIMS Lite yn dechrau cael ei fabwysiadu yn Lloegr i helpu i ddatblygu'r gwaith o rannu asedau a gwneir defnydd helaeth ohono gan Lywodraeth yr Alban.

### ii) Llefydd Dros Ben/Gwag

Gellir defnyddio ePIMS i chwilio am eiddo sy'n wag ar hyn o bryd neu y disgwylir iddynt ddod yn wag, a'u rhestru. Yn ogystal, mae'r cyrff sydd wedi'u cofrestru'n ffurfiol ar ePIMS yn cael rhestr fwy hwylus o leoedd/eiddo gwag a bwletin misol o leoedd gwag. Anogir sefydliadau i wirio'r gronfa ddata hon os oes angen lle arnynt cyn chwilio'r farchnad ehangach.

Os oes ased dros ben a/neu'n wag gan gyrff yn y sector cyhoeddus, mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn argymell eu bod yn rhoi gwybod i'r sector cyhoeddus ei fod ar gael trwy ePIMS yn gyntaf, cyn ei farchnata yn ehangach i'r sector preifat.

Ceir enghreifftiau eisoes o achosion lle mae rhoi eiddo ar y gofrestr lleoedd gwag/dros ben wedi arwain at drosglwyddo o fewn y sector cyhoeddus, gan sicrhau gwell effeithlonrwydd, arbedion ariannol a gwelliannau o ran cyflenwi gwasanaethau.

- Hen swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi
- Uned Llywodraeth Cymru yn Nafen ger Llanelli i Gyngor Sir Caerfyrddin

### iii) Find Me Some Government Space (FMSGS)

Cronfa ddata o ystafelloedd cyfarfod yn y sector cyhoeddus yw **FMSGS** a datblygwyd hyn hefyd trwy ePIMS. Y Gweithgor Asedau Cenedlaethol yng Nghymru sydd wedi cychwyn ac arwain datblygiad y gwasanaeth arbennig hwn. Cafodd ei ddatblygu yn dilyn ceisiadau gan gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru lle gwelwyd bod cyfleoedd i ehangu'r defnydd o ePIMS. Ei nod yw galluogi cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru i rannu ac archebu

ystafelloedd cyfarfod a chynadledda gan wneud defnydd gwell a mwy effeithlon o adeiladau a chylfuesterau'r sector cyhoeddus ledled Cymru a helpu i leihau costau. Lansiwyd FMSGS ym mis Tachwedd 2012.

**iv) Protocol Trosglwyddo Tir**

Datblygwyd y Protocol Trosglwyddo Tir gan y Gweithgor Asedau Cenedlaethol fel canllaw arferion gorau ar gyfer trosglwyddo neu waredu tir rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Dyma'i nodweddion allweddol:

- Gwella effeithlonrwydd, lleihau'r amser a'r costau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo, defnyddio a gwaredu'r ystad gyhoeddus rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru
- Canfod anawsterau o ran cyllidebu/cyfrifydda a rhwystrau a allai godi wrth drosglwyddo tir fel hyn – mae'r gwaith hwn yn dal ar y gweill.
- Nodi pwerau'r gwahanol gyrff wrth waredu tir a'r cyfyngiadau sydd arnynt.

Mae gwahanol gyrff y sector cyhoeddus yn penderfynu pan na fydd angen ased arnynt bellach ac y gellid ei waredu. Atodir dolen i'r protocol[5].

Cymeradwywyd y broses hon gan wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru gan fod y trafodion yn cael eu cynnal yn ôl gwerth y farchnad.

Cafwyd dros 30 cyfarwyddyd trwy'r Protocol Trosglwyddo Tir ac amcangyfrifir bod yr arbedion uniongyrchol cyfredol yn £100,000 mewn ffïoedd. Dim ond yr arian a arbedir o ran apwyntiadau syrfewyr yw hyn ac nid yw'n cynnwys yr amser a arbedir gan gyrff yn trosglwyddo/gwaredu'r ased h.y. dylai swyddogion fod yn treulio llai o amser yn bargeinio hefyd. Cychwynnwyd ystyried y 'Gwersi a Ddysgwyd' a gofynnwyd i'r cyrff sydd wedi defnyddio'r Protocol Trosglwyddo Tir am eu hymateb. Y bwriad yw gwella'r broses gyfredol a phennu'r meysydd hynny lle gellid datblygu mwy ar y protocol.

23. Gan symud ymlaen, mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol yn cefnogi gwaith dau brosiect neilltuol hefyd:

- **Technoleg Gwybodaeth**

Mae ffrwd waith yn ei lle i ystyried y cyfleoedd ar gyfer llunio a datblygu rhaglen TG gynhwysfawr ar gyfer rheoli asedau yng Nghymru. Byddai'n cael ei chaffael yn ganolog ac ar gael i'w defnyddio gan bob corff sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r gwaith hwn yn ystyried y potensial ar gyfer arbed arian a sicrhau bod llai o wahanol systemau'n cael eu defnyddio yn y sector cyhoeddus er mwyn

[5] http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/pslg/nwp/assetprocure/landtransfer/?lang=cy

ei gwneud yn haws i gyrff rannu data, a hyrwyddo sgiliau trosglwyddadwy ymhlith y staff.

Gallai defnyddio 'Cyfrifiadura cwmwl'[6] ar gyfer rheoli ac archwilio data a chreu adroddiadau olygu bod pob corff yn gallu parhau'n annibynnol wrth gyfathrebu'n uniongyrchol â systemau eraill e.e. ePIMS a sicrhau gwell cyfleoedd i gydweithio, gan adeiladu ar yr egwyddorion y llwyddwyd i'w sefydlu trwy'r wybodaeth lefel uchel sydd eisoes yn ePIMS.

- **Rheoli Fflydoedd a Chludiant Teithwyr**

Ceir tystiolaeth y gall gwaith mwy integredig ym maes rheoli fflydoedd a chludiant teithwyr arbed cryn dipyn o arian heb amharu ar y gwasanaeth.

Dyma nodau'r prosiect cyfredol:

- Dangos yn glir i ba raddau y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi datblygu o ran rheoli fflydoedd (y sector cyhoeddus i gyd) a chludiant teithwyr (llywodraeth leol ac iechyd);

- Astudiaethau achos i helpu'r sector cyhoeddus i ddeall cyfleoedd ar gyfer gwelliannau; a

- Dewis o gamau i alluogi cyrff i wella yn y maes hwn, ar eu pen eu hunain neu trwy gydweithio.

Does dim modd gorfodi cyrff i weithredu nac i gydweithio ond mae modd hybu newid trwy dynnu sylw at arferion gorau, datblygu a rhannu camau ymarferol, a galluogi cyrff i fesur pa mor bell y maent wedi datblygu gan ddefnyddio fframwaith safonol.

Mae amrediad y gwaith ym maes rheoli fflydoedd yn cynnwys nifer y cerbydau, ymddygiad a gwaith y gyrwyr, a chostau cynnal a chadw – ond nid yw'n cynnwys caffael na manylebau safonedig ar hyn o bryd. Ni wyddom eto faint yn union o arian y gellir disgwyl ei arbed trwy'r wlad ond, ar sail gwaith cychwynnol yn y gogledd, lle gobeithir arbed tua £3m, teimlwn yn eithaf hyderus y gellid gwneud arbedion ar raddfa debyg ar draws y sector cyhoeddus.

Mae'r gwaith ym maes cludiant teithwyr ar hyn o bryd yn cynnwys:

- cludiant ar gyfer pobl ifanc (o'r cartref i'r ysgol, AAA, ôl 16, rhwydwaith bysiau gyda chymhorthdal);
- cludiant i helpu oedolion agored i niwed a rhai sy'n cael cymorth i fyw'n annibynnol;

---

[6] *Cyfrifiadura Cwmwl – Model ar gyfer cyflenwi gwasanaethau technoleg gwybodaeth lle mae adnoddau'n cael eu cyrchu o'r rhyngrwyd trwy declynnau a chymwysiadauu ar y we, yn hytrach na thrwy gysylltiad uniongyrchol â gweinydd. Caiff data a phecynnau meddalwedd eu storio mewn gweinyddion. Ond mae cyfrifiadura cwmwl yn golygu y gellir cyrchu gwybodaeth cyhyd ag y bo gan ddyfais electronig gysylltiad â'r we.*

- cludiant i gleifion nad yw'n gludiant brys nac yn gludiant cymunedol;
- y rhwydwaith bysiau masnachol.

Datblygwyd matrics aeddfedrwydd ac fe'i hanfonir at Brif Weithredwyr cyn hir er mwyn canfod darlun cenedlaethol ar gyfer Rheoli Fflydoedd a Chludiant Teithwyr ac i helpu i ganfod y potensial ar gyfer gwelliannau a chyfleoedd i wella gwaith cyflenwi gwasanaethau ac i hybu arbedion yn y dyfodol.

24. **Prosiectau Buddsoddi-i-Arbed**

Mae'r Gweithgor Asedau Cenedlaethol wedi hwyluso'r gwaith o wneud cais ar y cyd i gefnogi pedwar prosiect peilot penodol trwy'r Gronfa Buddsoddi-i-Arbed. Prosiect rheoli asedau cydweithredol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Prosiect  Asedau Cydweithredol gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd; Strategaeth Ystadau a Strategaeth Defnyddio Lle  Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; ac, ymarferiad cwmpasu eiddo Cyngor Sir Powys ar gyfer y cynlluniau i adfywio canol tref Aberhonddu.  Nod y prosiectau hyn yw sicrhau gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus ac arbedion trwy reoli asedau'n well.  Defnyddiwyd arian Buddsoddi-i-Arbed i gyflymu'r gweithgareddau ar dair lefel: rhesymoli asedau corfforaethol; cydweithio mewn ardaloedd lleol; a chyfleoedd sy'n codi o ddefnyddio asedau sydd dros ben.

Mae rhannu arferion da ymhlith partneriaid yn  y gwasanaethau cyhoeddus yn un o amodau allweddol cael y cyllid ac mae gwersi'n cael eu rhannu ar draws y sector eisoes  yn dilyn y cynlluniau peilot cynnar.   Y gobaith yw parhau â'r dull gweithredu hwn trwy'r don nesaf o gyllid Buddsoddi-i-Arbed.